Proffil un dudalen

Llun o'r plentyn neu'r person ifanc yma.

Hoffi ac edmygu:
Mae angen i'r elfen hon fod yn rhestr gadarnhaol a llawn balchder o rinweddau, cryfderau a thalentau unigol y plentyn neu'r person ifanc.

Dylid osgoi geiriau fel 'fel arfer' neu 'weithiau' neu unrhyw beth sy'n swnio fel canmoliaeth wan.

Beth sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc:

Dylech gynnwys digon o fanylion i sicrhau bod rhywun nad yw'n adnabod y plentyn neu'r person ifanc yn deall beth sy'n bwysig iddo/iddi. Pe baech chi'n tynnu'r enwau oddi ar y proffiliau un dudalen, dylai barhau i fod yn hawdd adnabod pawb.

Yn hytrach nag ysgrifennu:

- mae'n hoffi amser egwyl
- mae'n drefnus
- cwmni ffrindiau

Ysgrifennwch hyn:

- chwarae gemau (yn cynnwys rhedeg a sgipio fel arfer) gyda Hannah a'i ffrindiau agos eraill yn ystod amser egwyl
- pacio ei chas pensiliau a'i bag y noson gynt
- eistedd gydag Ella, Lucy a Nina amser cinio

Sut i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn dda:

Dylech gynnwys digon o fanylion fel y gallai athro cyflenwi gefnogi'r unigolyn yn dda ar unwaith a gwybod beth i'w wneud a beth i'w osgoi.

Yn hytrach nag ysgrifennu:

- mae angen bod yn amyneddgar gyda Liam
- mae angen help ar Chloe i wneud ffrindiau

Ysgrifennwch hyn:

- Efallai y bydd angen i chi ailadrodd cyfarwyddiadau tasg wrth Liam fwy nag unwaith cyn ei fod yn teimlo'n hyderus i roi cynnig arni. Byddwch chi'n gwybod os yw'n ansicr oherwydd bydd yn edrych trwy'r ffenestr ac yn cnoi ei bensil. Fel arfer, mae'n well gofyn iddo a oes ganddo unrhyw gwestiynau am y gweithgaredd yn hytrach na gofyn a yw'n deall beth i'w wneud.
- Mae Chloe yn cymryd amser i ddod i adnabod pobl a gwneud ffrindiau. Mae'n helpu os gallwch chi drefnu iddi dreulio amser yn eistedd gyda merched gwahanol yn ystod wythnosau cynta'r tymor. Mae hi'n gwerthfawrogi os ydych chi'n gofyn iddi am ei chyfeillgarwch â merched eraill yn ystod amser un-i-un.